Cerddorion Ifanc
Young Music Makers of Dyfed
ymmd.org.uk

POLISI CYDRADDOLDEB

Mae YMMD yn cydnabod bod gan bawb gyfraniad i'w wneud, ac mae gan bawb hawl i gyfle cyfartal. Ni wahaniaethir yn erbyn unrhyw un sy'n ymwneud â gwaith ein helusen, boed hynny mewn rôl gyflogedig neu wirfoddol, ac ni wahaniaethir yn erbyn unrhyw un sy'n cymryd neu sy'n elwa o'n gwaith ar sail:

- rhyw
- hil
- anabledd
- cyfeiriadedd rhywiol
- crefydd neu gred, neu ddiffyg crefydd neu gred
- oed
- neu unrhyw wahaniaethu anghyfreithlon neu annheg arall

Ein nod yw hyrwyddo cyfle cyfartal, dileu gwahaniaethu, a dileu aflonyddu drwy'r canlynol:

- Gwrthwynebu pob math o wahaniaethu anghyfreithlon ac annheg.
- Trin pawb yn deg a gyda pharch.
- Sicrhau y caiff gweithwyr cyflogedig eu dewis, ac y byddwn recriwtio arweinwyr dosbarth meistr, cerddorion/cyfansoddwyr preswyl a chyfeilyddion ar sail dawn a gallu yn unig.
- Caniatáu mynediad cyfartal i'n gweithgareddau ar i unrhyw fyfyrwyr a gynigir gan ysgolion, colegau ac athrawon cerdd, a disgyblion sy'n cael eu haddysgu gartref.
- Sicrhau bod pawb sy'n cyfrannu at waith ein helusen yn ymwybodol o'u rhwymedigaeth gyfreithiol a moesol i beidio â gwahaniaethu.

Mae YMMD yn gwbl ymroddedig i'r canlynol:

- Creu amgylchedd lle mae gwahaniaethau unigol a chyfraniadau pawb yn cael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi.
- Creu amgylchedd sy'n hybu urddas a pharch at bawb, a lle na fydd unrhyw fath o fygythiad, bwlio neu aflonyddu yn cael ei oddef.
- Sicrhau bod cyfle cyfartal ar gael i bawb sy'n ymwneud â gwaith yr elusen, lle bydd torri'r polisi hwn yn cael ei drin o ddifrif, ac y gallai arwain at anghymwyso rhag cymryd rhan.
- Monitro ac adolygu'r polisi hwn a'i weithrediad yn rheolaidd.

Mae gweithrediad llwyddiannus y polisi hwn yn dibynnu ar ymwybyddiaeth ac ymrwymiad pawb sy'n ymwneud â gwaith ein helusen. Felly, bydd pawb sy'n ymuno â'r elusen mewn rôl gyflogedig neu wirfoddol yn cael gwybod am fodolaeth y polisi a'r disgwyl iddynt gydymffurfio â hi.

Mabwysiadwyd y polisi hwn yn ffurfiol gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr ar (nodwch y dyddiad)
Adolygwyd y polisi hwn ar (nodwch y dyddiad)